Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Hysbysiad hwylus

Gofal iechyd parhaus y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar gyfer oedolion

Mai 2011

Cyflwyniad

Darperir y rhan fwyaf o wasanaethau **gofal iechyd** y Gwasanaeth Iechyd Gwladol am ddim i gleifion yng Nghymru ond, fel arfer, codir tâl ar sail prawf moddion am wasanaethau **gofal cymdeithasol** sy'n cael eu darparu neu'u trefnu gan awdurdodau lleol. Gwasanaethau gofal cymdeithasol yw'r gwasanaethau hynny sy'n helpu unigolion i gyflawni tasgau bywyd bob dydd, gan gynnwys gofal personol. Fodd bynnag, gall y GIG dalu costau gofal iechyd a chymdeithasol rhai pobl sydd ag anghenion gofal iechyd hirdymor, pan fo'u hanghenion yn gysylltiedig â'u hiechyd yn bennaf. Gelwir hyn yn ofal iechyd parhaus y GIG.

Cefndir

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae diffyg eglurder ynghylch sut y caiff penderfyniadau eu gwneud ar gymhwysedd i gael gofal iechyd parhaus y GIG wedi arwain at nifer fawr o gwynion gan gleifion ac at gynnal ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd yn Lloegr ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mewn rhai achosion bu unigolion yn llwyddiannus wrth herio penderfyniadau gan y GIG i beidio â darparu gofal iechyd parhaus. Bellach, mae fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG ar gyfer oedolion wedi'i ddatblygu yng Nghymru a Lloegr[1] i hyrwyddo dull gweithredu mwy cyson. Mae'r fframwaith ar waith yng Nghymru ers 16 Awst 2010 ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bwriad i adolygu'r fframwaith ar ôl blwyddyn.

Cymhwysedd i gael gofal iechyd parhaus y GIG

Yng Nghymru, byrddau iechyd lleol fydd yn trefnu ac yn ariannu pecynnau gofal ar gyfer pobl sy'n gymwys i gael gofal iechyd parhaus y Gwasanaeth Iechyd Gwladol; mae gan bob bwrdd iechyd lleol reolwr sy'n gyfrifol am y dasg hon. Rhaid i fyrddau iechyd lleol ddilyn canllawiau fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru wrth wneud penderfyniadau ynghylch cymhwysedd i gael gofal iechyd parhaus y GIG. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r

[1] Cylchlythyr, Llywodraeth Cymru 015/2010, **Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Oedolion**, Mai 2010 [fel ar 18 Mai 2011]

ffactorau y dylid eu hystyried gan aseswyr pan fyddant yn gwneud penderfyniadau am gymhwysedd.

Er mai'r byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am gydlynu'r asesiad ac am wneud penderfyniadau am gymhwysedd, tîm aml-ddisgyblaethol, sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a gofal cymdeithasol pan fo'n briodol, ddylai roi'r broses ar waith er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar anghenion y person yn cael ei hystyried.

I fod ym gymwys i gael gofal iechyd parhaus y GIG, rhaid i gleifion fod ag 'angen iechyd sylfaenol', hynny yw, dylai eu hanghenion gofal ddeillio'n bennaf o'u hanghenion iechyd. Penderfynir ar hyn ar sail y math o anghenion sydd ganddynt ac ar sail y gofal sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion hynny. Dylid ystyried y pwyntiau a ganlyn yn y broses asesu:

- Natur: y math o anghenion (gan gynnwys anghenion corfforol, anghenion iechyd meddwl neu anghenion seicolegol) a'u heffaith cyffredinol ar yr unigolyn, gan gynnwys y math o ymyriadau sy'n ofynnol i ymdrin â hwy.
- Dwyster: graddau ('swm') a difrifoldeb ('gradd') yr anghenion a'r gefnogaeth sydd ei hangen i'w diwallu, gan gynnwys yr angen am ofal parhaus/cyson.
- Cymhlethdod: sut y mae'r anghenion yn amlygu'u hunain ac yn rhyngweithio i gynyddu'r gallu sy'n ofynnol i fonitro'r symtomau, i drin y cyflwr/cyflyrau a/neu i reoli gofal y claf. Efallai bod hyn o ganlyniad i un cyflwr, aml gyflyrau, neu i ryngweithio rhwng dau gyflwr neu fwy.
- Anrhagweladwyedd: i ba raddau y mae'r anghenion yn amrywio a, drwy hynny, yn creu her i reoli'r anghenion hynny. Mae hefyd yn ymwneud â lefel y risg i iechyd y person os na ddarperir gofal digonol mewn da bryd.

Gall pob un o'r nodweddion hyn ar eu pennau'u hunain, neu mewn cyfuniad â'i gilydd, amlygu angen iechyd sylfaenol, oherwydd ansawdd neu swm y gofal a fydd yn ofynnol.

Dylai penderfyniadau ynghylch cymhwysedd fod yn seiliedig ar anghenion iechyd ac nid ar ystyriaethau cyllidebol a dylent gynnwys cleifion a, phan fo'n briodol, teuluoedd, gofalwyr ac eiriolwyr.

Defnyddir yr wybodaeth a geir yn ystod yr asesiad i gwblhau offeryn i gynorthwyo i wneud penderfyniadau, sef offeryn a fydd yn helpu gyda phenderfyniadau cymhwysedd. Mae'r offeryn yn cynnwys y 12 parth a ganlyn, ac mae pob un ohonynt wedi'i rannu yn ôl lefelau anghenion:

1. Ymddygiad
2. Gwybyddiaeth
3. Iechyd meddwl (anghenion seicolegol ac emosiynol)
4. Cyfathrebu
5. Symudedd
6. Maethiad – bwyd a diod
7. Ymataliad
8. Y croen, gan gynnwys pa mor hyfyw yw'r meinwe

9. Anadlu
10. Therapïau cyffuriau a meddyginiaethau: rheoli symptomau
11. Cyflyrau ymwybod sydd wedi'u newid
12. Anghenion gofal arwyddocaol eraill sydd i'w hystyried

Er y dylid gwneud asesiadau gan ddefnyddio'r broses a nodir yng nghanllawiau'r fframwaith cenedlaethol, mae barn broffesiynol yn parhau i fod yn bwysig wrth wneud penderfyniadau ynghylch cymhwysedd i gael gofal iechyd parhaus y GIG.

Gall y rhai a gaiff eu hasesu fel rhai nad ydynt yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus y GIG barhau i gael gwasanaethau gofal cymdeithasol a drefnir gan eu hawdurdod lleol o bosibl, yn amodol ar daliadau sy'n seiliedig ar brawf moddion. Mae'n bosibl iddynt hefyd gael gwasanaethau gofal iechyd y GIG yn y ffordd arferol.

Gofyn am asesiad cymhwysedd

Dylai cleifion a defnyddwyr gwasanaethau sy'n tybio eu bod yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus y GIG gael sgwrs â'u meddyg teulu, staff yr ysbyty neu staff y gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn angenrheidiol yn aml os bydd anghenion unigolyn yn newid; er enghraifft, pan gynllunnir bod claf i gael ei ryddhau o'r ysbyty, pan wneir asesiad gofal cymunedol, neu pan adolygir anghenion gofal nyrsio person mewn cartref gofal. Mae'n bosibl y gall pobl sydd â chyflyrau sy'n achosi i'w hiechyd ddirywio'n gyflym, pobl sy'n fwyfwy dibynnol ar bobl eraill, neu bobl sy'n cyrraedd diwedd eu hoes gael asesiad 'brys' i alluogi pecyn gofal i gael ei drefnu cyn gynted ag y bo modd.

Mae'n bosibl y caiff pobl a gaiff eu hasesu eu bod yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus y GIG gael darpariaeth mewn cartref gofal, mewn hosbis neu yn eu cartrefi eu hunain. Ni fydd gan y rhai a gaiff y gofal mewn cartref gofal yr hawl i ddewis y cartref gofal na'i leoliad ond gallant fynegi barn ar yr hyn y maent yn ei ffafrio. Efallai y bydd adnoddau bwrdd iechyd lleol yn effeithio ar benderfyniadau ynghylch a fydd pecynnau gofal cymhleth yn cael eu darparu gartref neu mewn sefydliad gofal preswyl.

Nid oes modd darparu gofal iechyd parhaus y GIG gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol, yn wahanol i wasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol, er y gellir cynnig gwasanaethau cyfatebol o bosibl.

Herio penderfyniadau am gymhwysedd i gael gofal iechyd parhaus y GIG

Mae modd herio penderfyniadau ynghylch cymhwysedd i gael gofal iechyd parhaus y GIG o ran y gweithdrefnau a ddefnyddir i wneud penderfyniad neu ar sail y dull o gymhwyso'r meini prawf cymhwysedd. Dylid defnyddio proses datrys anghydfodau'r byrddau iechyd lleol i herio penderfyniad yn y lle cyntaf, er ei bod yn bosibl y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at banel adolygu annibynnol.

Mae modd herio penderfyniadau ynghylch cymhwysedd i gael gofal iechyd parhaus y GIG a wnaed ers 31 Mawrth 2003, hyd yn oed pan fo'r person sy'n cael y gofal wedi marw. Mae'n

bosibl y bydd angen cyngor cyfreithiol mewn achosion o'r fath. Bellach, nid oes modd herio penderfyniadau a wnaed cyn 31 Mawrth 2003.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am agweddau ar ofal iechyd parhaus y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, cysylltwch â Stephen Boyce (**Stephen.boyce@cymru.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y cyhoeddiadau isod hefyd. Dilynwch y lincs:

- Taflen wybodaeth Age Cymru: ***NHS Continuing Healthcare Factsheet 20w***
- Canllaw 'Counsel and Care': ***Guide 27. Continuing Healthcare: Should the NHS be paying for your care?***
- Canllaw 'Counsel and Care': ***Guide 40. Continuing Healthcare: understanding the assessment process***

Gallwch weld rhestr lawn o'n **hysbysiadau hwylus** yma.

Rhif ymholiad: 11/0863 Stephen Boyce

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd.

Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon drwy'r post i'r Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu dros e-bost i Research.Service@wales.gov.uk